

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Llun, 25 Mawrth 2019 am 1.30 pm.

YN BRESENNOL

Iwan Davies (Cadeirydd yn absenoldeb Bethan Jones)
Y Cynghorydd Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Greenhalgh – Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Hugh Evans - Cyngor Sir Ddinbych
Gary Doherty - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Teresa Owen – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Siân Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru
Wendy Jones – Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Helen Wilkinson – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Yr Uwcharolygydd Neil Harrison– Heddlu Gogledd Cymru
Sioned Rees – Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
Sam Owen (yn lle Marina Owen - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol)
Helen MacArthur – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

HEFYD YN BRESENNOL

Nicola Kneale - Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych)
Fran Lewis - Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBS Conwy)
Hannah Edwards - Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBS Conwy)
Angela Loftus – Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Sir Ddinbych)
James Harland - Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol (CBS Conwy)
Pippa Hardwick - Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
Lyn Ockenden White – Rheolwr Cymorth Busnes (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
Sharon Walker – Gweinyddwr Pwyllgorau (Cyngor Sir Ddinbych)

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Bethan Jones, (Cadeirydd) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Simon Smith – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Marina Owen - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 i'w cymeradwyo.

Dyweddodd Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) fod Debbie Neale wedi mynychu cyfarfod y Bwrdd ar ei rhan. Eglurodd mai Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych oedd yn arwain yr rhaglen Ymwybyddiaeth Dementia o dan Arweiniad y Gymuned o fewn Sir Ddinbych ac nid Conwy. Cadarnhaodd y byddai'n trafod y mân wallau gyda Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ôl y cyfarfod.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drefniadau Cydgraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

Cadarnhawyd bod Cyd Bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi'i sefydlu. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ym mis Chwefror 2019.

Byddai aelodaeth y Pwyllgor Craffu yn cynnwys 8 aelod etholedig o Gonwy ac 8 o Sir Ddinbych. Roedd y cyfarfod cyntaf am gael ei gynnal ar 21 Mai 2019 ac roedd Cynghorwyr wedi gofyn i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynychu'r cyfarfod.

4 ENWEBIADAU CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cyflwynodd y Cadeirydd yr enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Dyweddodd nad oedd y Cadeirydd presennol nag ef fel Is-Gadeirydd yn bwriadu parhau yn eu rolau. Felly, gofynnodd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac IsGadeirydd y Bwrdd.

Enwebwyd ac eiliwyd Sian Williams o Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rôl y Cadeirydd. Derbyniodd Sian y rôl ond awgrymodd y dylid penodi cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru arall i'r Bwrdd yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd.

Enwebwyd ac eiliwyd Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, ar gyfer rôl yr Is-Gadeirydd.

Mewn perthynas â mynychu cyfarfod cyntaf y cyd bwyllgor craffu, cytunodd yr aelodau y byddai o fudd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd newydd fynychu'r cyfarfod, gyda chefnogaeth y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd presennol (os yw amserlenni yn caniatáu hynny).

PENDERFYNWYD:

- i. Mai Sian Williams o Gyfoeth Naturiol Cymru fydd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fis Mehefin 2019 ymlaen.

- ii. Mai Judith Greenhalgh o Gyngor Sir Ddinbych fydd Is-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fis Mehefin 2019 ymlaen.

Ar y pwynt hwn, newidiwyd trefn yr Eitemau ar y Rhaglen.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018/2019 BGC CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Fran Lewis, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) yr adroddiad blynyddol drafft (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Lluniwyd yr adroddiad i roi trosolwg bras o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ers cyhoeddi cynllun lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2018. Roedd rhaid sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd ac yn gallu adlewyrchu ar y meysydd yr oedd yn gwneud gwahaniaeth ynddynt yn unol â'r pum ffordd o weithio, ynghyd ag amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Eglurwyd y byddai'r adroddiad blynyddol drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Craffu ym mis Mai cyn cael ei ail gyflwyno ger bron y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin er mwyn cael ei gymeradwyo'n derfynol.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Ystyriwyd aelodaeth y Bwrdd fel rhan o'r gwaith wrth symud ymlaen. Awgrymwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o Barc Cenedlaethol Eryri i ymuno â'r Bwrdd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Adran Tai ac Adfywio. Nodwyd, pe bai cynrychiolydd o'r Parc Cenedlaethol yn cael ei wahodd, byddai'n rhaid cynnwys cynrychiolydd o AHNE. Hysbyswyd y Bwrdd bod Cyngorau Tref a Chymuned hefyd wedi gofyn i gael cynrychiolydd ar y Bwrdd. Mynegwyd pryder y gallai aelodaeth gynyddu'n ormodol ac felly ni fyddai gan y Bwrdd fodel darparu effeithiol. Cytunodd yr aelodau i adolygu aelodaeth yn ffurfiol yn ystod y cyfarfod nesaf.
- Newid y rolau arweiniol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth – roedd rhai aelodau o'r farn y byddai'n amser delfrydol i aelodau'r Bwrdd, sy'n arbenigwyr o fewn eu meysydd, gyflawni'r blaenoriaethau priodol. Cytunwyd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar flaenoriaeth yr amgylchedd a bydd lechyd Cyhoeddus Cymru / Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain ar y flaenoriaeth lles meddyliol. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i arwain y flaenoriaeth ymrymuso'r gymuned gyda chefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy.
- Nodwyd nad oedd y ffaith ein bod yn Fwrdd agored ar gyfer y cyhoedd wedi'i chyfleu yn ddigon amlwg yn yr adroddiad.
- Awgrymwyd y dylid cynnwys y cyfeiriad ar gyfer y 12 mis nesaf o fewn yr adroddiad.
- Gofynnodd Helen Wilkinson (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych) i gael golygu'r elfen ddementia yn y flaenoriaeth ymrymuso'r gymuned.
- Mewn perthynas â'r elfen ddigartrefedd yn y flaenoriaeth ymrymuso'r gymuned, gofynnodd y Bwrdd i gael mwy o wybodaeth am y sefyllfa yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

- Tynnu'r cyfeiriad at flaenoriaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn amlinellu'r gwahaniaeth yr oedd y Bwrdd yn ei wneud, awgrymwyd y dylid cynnwys diagram i ddangos i ble yr oedd y llwybr yn arwain ac yr hyn yr oeddem eisiau ei gyflawni (os yn bosib yn y cylch hwn o adroddiadau).

Ar y pwynt hwn, dywedodd Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru) wrth yr aelodau eu bod yn dilyn dull rhanbarthol o ran Newid Hinsawdd. Bydd y dull hwn yn ddefnyddiol i ddysgu oddi wrth ein gilydd ac i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu. Trwy'r dull hwn bydd hefyd cyfle i gymharu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill. Cadarnhaodd y byddai'n cyflwyno'r cynlluniau, y syniadau a'r wybodaeth ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar newid hinsawdd ar hyn o bryd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r newidiadau a geisiwyd yn cael eu gwneud i'r adroddiad blynyddol drafft a byddai'r fersiwn ddiwygiedig yn cael ei dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd er mwyn iddynt roi eu sylwadau. Oherwydd terfynau amser, byddai dyddiad cau yn cael ei osod ar gyfer unrhyw ddiwygiad gan y Bwrdd, cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgorau Craffu.

PENDERFYNWYD

- i. diwygio Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/2019 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych cyn ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.
- ii. adolygu aelodaeth yn ffurfiol yn ystod y cyfarfod nesaf.
- iii. y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar flaenoriaeth yr amgylchedd a bydd lechyd Cyhoeddus Cymru / Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain ar y flaenoriaeth lles meddyliol.
- iv. y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiartrefedd yn cael ei darparu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6 CYNLLUN TAIR BLYNEDD 2019/2022 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Cyflwynodd Gary Doherty, Prif Weithredwr Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer y cynllun tair blynedd 2019/2022, a oedd yn ddogfen gwaith ar y gweill.

Eglurodd yr adroddiad sut yr oedd Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio a beth oedd y blaenoriaethau allweddol. Y tri maes blaenoriaeth oedd:

- Gwell iechyd a lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd
- Darparu gofal yn nes at y cartref, a
- Gofal ardderchog yn yr ysbyty

Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen gwella rhai meysydd allweddol. Er enghraifft, byddai ar y system TG angen fersiwn safonol ar draws y tri safle aciwt.

Roedd angen gwneud gwaith ychwanegol i'r adran ar gyfer cleifion allanol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol. Roedd canolbwyntio ar y 1000 diwrnod cyntaf yn lwybr i fodel gofalu newydd. Newidiadau i iechyd meddwl ac i sicrhau lles cymunedol yn hytrach nag aros nes bod argyfwng.

Eglurodd fod y Bwrdd Arweinwyr Rhanbarthol wedi bod yn edrych ar iechyd cyhoeddus ynghyd ag addysg i wneud gwahaniaeth.

Byddai ôl troed carbon Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn cael ei gynnwys o fewn y cynllun tair blynedd drwy ffyrdd amrywiol. Roedd y cynllun tair blynedd am gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd o fewn yr wythnos ac yna byddai'r adborth o gyfarfod y Bwrdd hwnnw yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. Gofynnwyd i gysylltu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun tair blynedd â thair blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i hyn.

PENDERFYNWYD nodi cynllun Tair Blynedd 2019/2022 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bod diweddariad yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

7 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CONWY A SIR DDINBYCH

Rhoddodd James Harland, Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol (CBSC) ac Angela Loftus, Rheolwr Tai a Chynllunio Strategol (CSDd), gyflwyniad llafar ar eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac ymateb i'r ymgynghoriadau.

Eglurodd James Harland (CBSC) ei bod yn broses 3 blynedd a hanner o hyd. Roedd protocol ar y cyd rhwng CBSC a CSDd. Cynhaliwyd proses ymgysylltu dros 6 wythnos ac roedd y tair elfen allweddol a ystyriwyd fel a ganlyn:

- (i) Cynnig Twf
- (ii) Gofyniad Tai Fforddiadwy
- (iii) Capasiti.

Roedd isadeiledd yn allweddol. Roedd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda darparwyr gwasanaeth ac roedd cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal gydag addysg ac iechyd.

Mae bwriad i fynd â hyn drwy ddemocratiaeth Conwy ym mis Mehefin / Gorffennaf.

Cadarnhaodd Angela Loftus (CSDd) bod proses ymgysylltu â CBSC wedi'i chynnal. Roedd yr amserlen ar gyfer CSDd yn debyg iawn i CBSC. Cafwyd problemau tebyg. Edrych ar aneddiadau o fewn y sir a pha wasanaethau oedd yn weithredol. Canolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol ac ymgymryd ag asesiadau o effaith ar les. Hefyd, ymgymryd ag asesiadau o effaith ar iechyd a fydd yn rhan o'r ymgynghoriad. Roedd angen mawr am dai fforddiadwy ond nid oedd yn debygol y byddai'r angen yn cael ei ddiwallu. Roedd yn bwysig cynyddu datblygiadau tai fforddiadwy.

Un her fawr oedd sut i gadw pobl ifanc o fewn y rhanbarth. Gofynnwyd i gadw tai fforddiadwy ar y rhaglen. Cadarnhawyd o safbwynt hyfywedd, roedd CBSC a CSDd yn cydweithio i gynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad gan James Harland ac Angela Loftus.

8 GRANT CEFNOGI BGC GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Strategol (CSDd) yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu'r Bwrdd am y grant gan Lywodraeth Cymru oedd ar gael i ranbarth Gogledd Cymru yn 2019/2020 a sut yr oedd y cyllid wedi'i ddyrannu ar draws y pedwar meini prawf sydd o fewn yr atodiad i'r adroddiad.

Roedd yr arian ar gael i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiaidau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol i gynorthwyo gyda datblygu cynlluniau lles, a'r datblygiad parhaus a chynnal asesiadau lles lleol.

PENDERFYNWYD:

- i. bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r adroddiad ac yn cefnogi cais 2019/2020 am gyllid.
- ii. bod diweddariadau rheolaidd ar wariant grant yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

9 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Helen Wilkinson, Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Wendy Jones, Prif Swyddog, Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy, adroddiad llafar ar y gefnogaeth y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei roi i'r trydydd sector.

Roedd y ddau sector gwirfoddol eisoes wedi rhoi cyflwyniadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y cyflwyniadau wedi codi ymwybyddiaeth o'r gwaith yr oedd angen ei wneud ond cytunwyd i aiddosbarthu y cyflwyniadau i'r holl aelodau.

Ariannwyd y sectorau gwirfoddol gan Lywodraeth Cymru a thaliadau gan bartneriaid amrywiol. Roeddent yn annog yr aelodau i ystyried eu sectorau ar gyfer gwaith cydgynhyrchu. Roedd Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy yn bwriadu darparu hyfforddiant ar ddiogelu data a diogelu. Cadarnhawyd hefyd y byddai gweithdai cydgynhyrchu yn cael eu cynnal yr wythnos ganlynol.

PENDERFYNWYD bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi cynnwys yr adroddiad llafar ac y dylid aiddosbarthu'r ddau gyflwyniad i'r holl aelodau er gwybodaeth.

10 GWASANAETHAU LLYWODRAETH LEOL I GYMUNEDAU GWLEDIG (ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU)

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd yr adolygiad yn asesu sut yr oedd llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i gymunedau gwledig a sut yr oedd cynghorau yn gweithio ag eraill.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd cynghorau wedi canfod ffyrdd cynaliadwy o helpu cymunedau gwledig i oresgyn yr heriau yr oeddent yn wynebu ac roedd angen iddynt feddwl a gweithredu'n wahanol.

Roedd rhan o'r adroddiad yn adolygu sut yr oedd cynghorau a'u partneriaid yn bwriadu cefnogi a chynnal cymunedau gwledig yn y dyfodol drwy waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Roedd argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel a ganlyn:

Argymhellodd Swyddfa Archwilio Cymru y dylai partneriaid gwasanaethau cyhoeddus y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb y fwy effeithiol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig drwy:

- Asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio offeryn prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad Llywodraeth Cymru a nodi a chytuno ar y camau gweithredu lleol a strategol sydd eu hangen i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol; a
- Sicrhau bod y Cynllun Lles Lleol yn nodi gweledigaeth sy'n fwy optimistaidd ac uchelgeisiol ar gyfer "lle" gyda chyd- flaenoriaethau a luniwyd ar y cyd gan bartneriaid a gyda dinasyddion i fynd i'r afael â'r newidiadau cytunedig.

Roedd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus edrych ar yr offeryn prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad gan Lywodraeth Cymru y gellid ei ddefnyddio gydag unrhyw benderfyniad. Cytunwyd y dylid gweithredu'r offeryn prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad â'r tair blaenoriaeth.

Cytunwyd bod gwaith yn cael ei wneud ond bod ddiffyg mewn adnoddau i fynd i'r afael â'r materion yn yr ardal wledig.

Mynegwyd safbwyntiau bod yr adroddiad yn gynamserol a byddai llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r argymhellion, awgrymwyd y dylid cyfeirio'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda'r Cynlluniau Datblygu Cyhoeddus, Cynnig Twf Gogledd Cymru a'r Cynllun Datblygu Gwledig a oedd yn gweithredu yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Cytunwyd i lunio ymateb drafft i'r argymhellion yn cynnwys cyfeirio at y meysydd gwaith uchod.

PENDERFYNWYD:

- i. nodi'r adroddiad a llunio ymateb i'r argymhellion.
- ii. gweithredu'r offeryn prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad â'r tri maes blaenoriaeth.

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried. Cadarnhaodd aelodau y rhaglen a'r adroddiadau a ddisgwylwyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin 2019 fel a ganlyn:

- Cymeradwyaeth o adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018/2019
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Gynnig Twf Gogledd Cymru
- Adroddiad ar ddull rhanbarthol tuag at newid hinsawdd □ Y wybodaeth ddiweddaraf am Y 1000 Diwrnod Cyntaf
- CGGSDd – rhaglen Ymwybyddiaeth Dementia o dan Arweiniad y Gymuned
- Cynllunio ar gyfer Sefyllfaoedd y Dyfodol
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Cyllid Hyblyg □ Gwaith ar Flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- **Eitem Eithriedig** – Trafodaeth ar ddatblygu cofrestr risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a heriau arweinyddiaeth.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45pm.